

W316.01 Cyfrif Costau Porthiant

Pam trafferthu?

Mae angen i chi wybod beth yw'r costau cynhyrchu i chi wneud penderfyniadau deallus i wella eich busnes. Er enghraifft, os fedr eich fferm gynhyrchu cnydau cymedrol o india-corn a fyddai tyfu cnydau grawn cyfan yn opsiwn rhatach? Efallai y dylech brynu india-corn sy'n sefyll yng nghae eich cymydog am £400 yr erw?

Cadwch bethau'n syml

Mae'n hawdd iawn mwydro eich pen gyda chostau manwl iawn – mae'r canllaw hwn yn ceisio cynhyrchu ffigyrau cywir a defnyddiol – yn gryno. Dylech weithio gydag unedau yr ydych chi yn gyfforddus gyda nhw.

Enghraifft – Costau Silwair Glaswellt (40ha Toriad 1^{af} @68DM claddfa silwair)

A) Cyfrif costau ar sail arwynebedd

Gwerth Rhent Mae gan bopeth a dyfir ar y fferm werth rhent – os na fydddech yn tyfu silwair gallech osod y tir, (ffigwr safonol yw £250/ha/y flwyddyn). Fel arfer mae silwair toriad 1^{af} yn cynhyrchu tua 40% o gyfanswm y cynnyrch blynyddol.

Sefydlu a rheoli tir glas

Mae costau ail-hadu ar gyfartaledd yn 250/ha – felly i gael tir glas am 5 mlynedd golyga £50 y flwyddyn. Dylid dyrannu 40% o'r gost i silwair toriad1^{af}. Dylid cynnwys costau rheoli chwyn ar yr un sail.

Mewnbynnau

Mae'r rhain yn gyfyngedig gyda thir glas ond gyda chnydau fel india-corn dylid cynnwys chwistrellu ac efallai plastig.

Peiriannau

Mae'r mwyafrif o weithrediadau contractwyr yn hawdd i'w gosod ar sail arwynebedd. Os ydych yn defnyddio eich peiriannau a'ch amser eich hun, yna gall y gwaith cyfrif fod yn gymhleth iawn (dibrisiant, costau cynnal a chadw, tanwydd a llafur). Mae'n haws defnyddio'r ffigyrau a gyhoeddwyd i ddechrau.

Costau eraill

Efallai y bydd rhai costau fel ychwanegion a dalennau yn cael eu cofnodi ar sail claddfa silwair-rhannwch y cyfanswm gyda'r arwynebedd sy'n mynd I'r gladdfa.

Enghraifft o gostau fesul ha

| | |
|---|------------------|
| Gwerth rhent (£250x40%) | =£100 |
| Costau ail-hadu | =£20 |
| Gwrtaith (400kg 21:8:11) → £155x0.4 | =£62 |
| Taenu slyri | =£25 |
| Rholio | =£21 |
| Chwalu Gwrtaith | =£6 |
| Torri | =£17 |
| Chwalu/rhencio | =£14.50 |
| Cludo/claddfa | =£107 |
| Ychwanegyn→ £800/40 | =£20 |
| Costau dalennau a samplu →£120/40 | =£3 |
| Cyfanswm/ha | = £395.50 |

B) Cyfrif y cnwd o ddeunydd sych kg (DS)

Mae angen i chi asesu'r cnwd i gyfrif y costau/kg DS. Dyfalu yn fras beth yw maint y cnwd yw un o'r camgymeriadau mwyaf a wneir wrth gyfrif costau - mae'n gwneud mwy o synnwyr i gael syniad bras o beth yw eich costau fesul erw - ac asesiad cywir o'r cnwd. Dewiswch y dull sydd fwyaf ymarferol i'ch fferm.

Dull 1 – Aseidiadau cnwd

Torri, sychu a phwysu glaswellt o ardal benodol (ee pedwar cwadrat 50x50cm) – gall hyn roi aseiad teg o faint y cnwd. Mae hyn yn cymryd amser a gall yr amrywiadau mewn a rhwng caeau fod yn uchel.

Dull 2 – Cofnodi pwysau trelar/byrnau

Bydd mynd ag ambell i delar ar draws pont bwysu yn rhoi pwysau ar gyfartaledd a gellir lluosu hyn i gael cyfanswm cynaeafu'r cnwd. Gellir asesu % y deunydd sych wrth gynaeafu neu ddefnyddio dadansoddiad o sampl claddfa.

Dull 3 – Amcangyfrif maint y cnwd o faint y gladdfa.

Mae cyfrif cyfaint y gladdfa a'i luosi gyda dwysedd swmp y cnwd yn rhoi syniad da o gyfanswm DS y cnwd. Mae dwysedd swmp yn amrywio ac yn dibynnu ar yr hyd torri, cyfnerthu a lleithder (% DS)

I gladdfa 3m o uchder: –

Silwair glaswellt @ 20%DS = 720kg/m³

@ 25%DS = 655kg/m³

@ 30%DS = 610kg/m³

Silwair india-corn @ 30%DS = 750kg/m³

Dull 4 – Defnyddio gwybodaeth bwysu i amcangyfrif maint y cnwd

Defnyddiwch bwysau'r silwair yn y cerbydau cymysgu gan gyfrif y dognau dyddiol i amcangyfrif cynnwys y gladdfa; mae hyn hefyd yn rhoi cyfrif am unrhyw golledion yn ystod y cynaeafu a silweirio.

C) Cyfrif y costau c/kg

Rhannwch gyfanswm costau eich arwynebedd gyda maint y cnwd a amcangyfrifwyd

ee) £395/20t ffres = £19.75/t o silwair ffres = 1.975c/kg silwair ffres

I drosi costau cnwd ffres yn gostau DS → $DM = \text{pwysau ffres} \times \frac{100}{\%DS}$

Felly gyda 25%DS = cost o 7.9c/kgDS

Ch) Ansawdd

Peidiwch ag anghofio fod ansawdd y porthiant yn allweddol i gynhyrchu cig a llaeth yn broffidiol. Cynilo gwag yw lleihau costau porthiant drwy dyfu cynydau D swmpus ac isel.

I gael rhagor o wybodaeth am gostau porthiant cysylltwch ag IGER GDC (01970) 823157/3026.

I gael gwybodaeth am gostau gweithredu a chostau contractwyr gweler
John Nix – 'Farm Management Pocketbook' gyhoeddwyd gan Ganolfan Andersons
'SAC Farm Management Handbook' -
'The Agricultural Budgeting and Costings Book' – Agro Business Consultants Ltd